



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

## YR ARCHIF DDIGIDOL A GWLEIDYDDIAETH DIGIDO

Gerben Zaagsma, Athro Cynorthwyol, [Canolfan Hanes Cyfoes a Digidol \(C<sup>2</sup>DH\)](#)  
[Luxembourg](#)

Yn y papur hwn ymdrinnir â chwestiwn sy'n dod yn fwyfwy pwysig i haneswyr sy'n gweithio ym maes treftadaeth ddiwylliannol wedi'i digido: beth yw gwleidyddiaeth digido a beth yw ei goblygiadau ar gyfer ymchwil hanesyddol? A yw potensial digido ar gyfer democrateiddio, a glodforir gan lawer, hefyd yn cael ei wrthbwysio gan risgiau sydd ynghlwm wrth brosesau dewis a allai ffafrio digido treftadaeth sy'n cyfateb i feistr naratifau cenedlaethol presennol, wrth argaeledd cyllid, a/neu wrth y blaenoriaethau a osodir gan bolisiau diwylliannol a rhai agendâu ymchwil? Beth yw lle treftadaeth ryngwladol yn y darlun hwn o ystyried bod y mwyafrif o brosiectau digido, mewn un ffordd neu'i gilydd, yn cael eu llunio'n genedlaethol? Pa ragfarnau y gall archifau digidol eu cyflwyno i'n gwaith ac ym mha ffordd y mae hyn yn wahanol i faterion yn ymwneud â rhagfarn a dewis yn yr archif 'bapur'? Wrth drafod y cwestiynau hyn, byddaf yn pwysleisio pwysigrwydd bod yn fwy tryloyw yn y cyswllt hwn, a'r angen am ganllawiau ar gyfer sefydlu archifau digidol. Un pwynt allweddol y tynnir sylw ato yw y dylai, ac y gall, haneswyr proffesiynol fod yn fwy parod i ddysgu oddi wrth brofiad archifyddion a llyfrgellwyr digidol sy'n arwain y 'tro digidol' mewn gwaith treftadaeth.

### Bywgraffiad

Athro Cynorthwyol yn y Ganolfan Hanes Cyfoes a Digidol (C<sup>2</sup>DH) ym Mhrifysgol Luxembourg yw Gerben Zaagsma. Ei brif ddiddordebau yw hanes Iddewig Ewropeaidd modern (gan gynnwys Astudiaethau Iddew-Almaenig) a hanes digidol a chyhoeddus. Yng nghyd-destun hanes digidol mae ganddo ddiddordeb arbennig yng ngoblygiadau methodolegol ac epistemolegol defnyddio technolegau newydd mewn ymchwil ac ysgrifennu hanesyddol. Mae ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect newydd yn ymwneud â gwleidyddiaeth digido, yn ogystal â sawl prosiect hanesyddol gofodol llai.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan  
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.